# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)13-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2007

**Amser:** 8:30 am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)12-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Iau, 6 Tachwedd 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau arnynt, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)13-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 13 a 14 Tachwedd 2007.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na chynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth cyn 5pm ddydd Mercher.

**Amserlen tair wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)12-07(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen tair wythnos Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen tair wythnos Busnes y Cynulliad a busnes heblaw Busnes y Llywodraeth - BC(3)12-07(p3)**

3.4 Nododd y Pwyllgor y byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwneud datganiad ac y cynhelir Dadl ar Araith y Frenhines ddydd Mercher 28 Tachwedd.

3.5 Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.6 Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw am Fusnes y Llywodraeth.

**4. Unrhyw fater arall**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod Comisiwn y Cynulliad wedi pendrefynu, yn ei gyfarfod blaenorol, y dylid cynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes i darfod materion sy'n berthnasol i fusnes. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf Comisiwn y Cynulliad yn cael ei gynnal ddydd Mercher 12 Rhagfyr ac awgrymodd y dylid cynnal y cyfarfod ar y cyd ar y diwrnod hwnnw. Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y cynnig hwn.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**